O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1269 (Cy. 160)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Troeon Gamallt, Aberteifi, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*11 Mai 2012*
Yn dod i rym	*17 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Troeon Gamallt, Aberteifi, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:30 o'r gloch ar 17 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A487 yn Nhroeon Gamallt, Aberteifi yn Sir Geredigion sy'n ymestyn o bwynt 500 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3422 i bwynt 1,750 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd hon;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.